OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1099

# Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Gwyddoniaeth) (Cymru) 2000

**Pennu targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfarwyddo y bydd y darpariaethau ynglŷn â thargedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a nodir yn y Ddogfen yn cael effaith i'r diben o bennu'r targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio ynglŷn â gwyddoniaeth.

(2) Ni ddylid ystyried bod unrhyw raglen astudio a nodir yn y Ddogfen yn cynnwys—

(a) Syndrom Afiechyd Diffyg Imiwnedd a Firws Diffyg Imiwnedd Dynol,

(b) unrhyw glefyd arall a drosglwyddir yn rhywiol, neu

(c) agweddau ar ymddygiad rhywiol dynol, heblaw agweddau biolegol.